

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at County Hall, Usk - Remote Attendance on Dydd Iau, 9fed Medi, 2021 at 10.00 am

Councillors Present

County Councillor T.Thomas (Chairman)
County Councillor L. Brown (Vice Chairman)

County Councillors: C.Edwards, D. Jones,
M.Lane, M. Powell and J.Watkins

Also in attendance County Councillors:
A. Easson and S. Woodhouse

Officers in Attendance

Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc
Sharon Randall-Smith, Pennaeth Cyflawniad a
Chyrhaeddiad
Nikki Wellington, Rheolwr Cyllid
Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Tyrone Stokes, Rheolwr Cyllid
Cath Saunders, Children and Young People
Directorate
Tim Bird, 21st Century Schools Adviser

APOLOGIES: County Councillors M.Groucutt

1. Datganiadau o Fuddiant

Roedd buddiannau personol na sy'n rhagfarnu wedi eu datgan gan y Cynghorydd Thomas fel Llywodraethwr ar Ysgol Gymraeg Y Fenni, y Cynghorydd Powell fel Llywodraethwr ar Ysgol Brenin Harri'r VIII, y Cynghorydd Jones fel Llywodraethwr ar Ysgol Gymraeg Y Fenni, Tony Easson fel Llywodraethwr ar Ysgol Y Ffin, a Maggie Harris fel Llywodraethwr gydag Ysgol Deri View.

2. Fforwm Aqored i'r Cyhoedd.

Sylwadau Ysgrifendig gan Mary Ann Brocklesby, Llywodraethwr Ysgol Gynradd Deri View a Chynghorydd Tref Y Fenni. Yn fy nghapasiti personol.

Annwyl Aelodau'r Pwyllgor,

Mae fy ymateb isod i'r ddogfen ymgynghori ar y cynnig i greu ysgol pob oed Y Fenni. Mae'r cynnig yn amlinellu ag eglurder pam fod angen disodli Ysgol Brenin Harri'r VIII gydag awyrgylch dysgu sydd yn addas i'r diben ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae'n llai eglur am y buddion i Deri View (DV). Yn fy marn i, mae'n methu gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer yr ysgol newydd mewn nifer o ffyrdd allweddol.

1. Y sylfaen dystiolaeth

Mae'r sylfaen dystiolaeth yn wan. Maent yn gofyn i ni gefnogi un o'r buddsoddiadau mwyaf yn Y Fenni a'r hyn sydd i ddigwydd yn y dyfodol ac mae'n seiliedig ar set o dybiaethau heb gynnig y dystiolaeth y bydd yr ysgol newydd, ar y cyfan, yn arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer plant yn

nalgylch DV, o'i gymharu gyda'r hyn sydd eisoes yn cael ei gyflawni gan ysgol ffyniannus sydd yn gwella'n barhaus. Nid wyf am ailadrodd y dadleuon yma oni bai am ddweud bod CSF heb wneud diwydrwydd dyladwy a heb gynnal yr asesiadau sylweddol sydd angen o dan ddyletswydd economaidd-gymdeithasol o ofal, nodweddion gwarchoddedig, yn enwedig oedran a Deddf Diogelu Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Heb os, mae hyn yn gamgymeriad gyda 46%, a chanran sy'n cynyddu, o blant sy'n derbyn Prydau Bwyd Ysgol am Ddim.

2. Darpariaeth y Feithrinfa

Mae eithrio darpariaeth y feithrinfa o gylch gorchwyl y cynigion, gan na fydd yn cael ei chynnal, yn anhygoel. Mae asesiadau effaith ar gyfer y ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer y grŵp oedran critigol hwn mewn ardal o dan anfantais nid yn unig yn angenrheidiol ond mae'n orfodol. Dylai'r asesiadau yma gael eu hatodi at y cynnig ond nid ydynt ar gael. Mae'r cynnig arfaethedig cyfredol yn israddio'r ddarpariaeth bresennol, o ran amser a mynediad, gyda llai o oriau a dim sicrwydd o lefydd yn y feithrinfa breifat newydd. Mae'r posibilrwydd bod plant bregus ac o dan anfantais yn colli eu darpariaeth, yn enwedig y rhai hynny sydd y tu hwnt i drothwy Dechrau'n Deg, ac mae hyn mewn peryg o arwain at blant yn wynebu mwy o anfantais a'n fwy bregus, dim llai.

3. Cynnwys a chydweithio gyda rhieni

Ychydig iawn o dystiolaeth sydd bod rhieni a'r gymuned ehangach o gwmpas DC wedi eu cysylltu ac yn rhan o'r cynlluniau ar gyfer yr ysgol ac addysg eu plant. Yn y cyfarfod cyhoeddus yr oeddwn wedi ei fynychu yn DV, roedd yna ymdeimlad fod pobl wedi eu brifo a phryder bod yna gais iddynt rannu eu barn mor hwyr ar ôl datblygu'r cynnig, heb unrhyw gydnabyddiaeth o sut y byddai colli DV yn effeithio ar y gymuned. Nid oedd rhieni wedi eu hargyhoeddi y byddai eu plant yn ddiogel, a bod y cyfnod pontio o ran addysg uwchradd, y rôl y mae DV wedi chwarae o ran cydlynu'r gymuned a dwyn y gymuned ynghyd, wedi ei hystyried a'i gwerthfawrogi.

I rai rhieni, dyma enghraifft arall o'u cymuned yn cael ei heithrio a'i hanghofio.

Nid yw'r cynigion, fel ag y maent, yn gyson gyda pholisi datblygu cynaliadwy CSF o gynnwys a chydweithio ag eraill ac nid yw'n ddigon cadarn ynglŷn â sut y mae, a sut y bydd yn y dyfodol, yn: a) cydweithio gyda rheini a'r gymuned wrth fynd i'r afael gydag amddifadedd economaidd-gymdeithasol a b) cynnwys yr ysgol gyfan mewn adolygiad agored cyn gweithredu unrhyw beth. Mae'r ddau beth yma wedi eu haddo yn yr atodiadau ar gyfer y cynnig. Mae Plant, Rhieni a'r gymuned yn haeddu gwell.

3. Ysgol Newydd yn y Fenni

Roedd Will McLean wedi rhoi cyflwyniad ac wedi ateb cwestiynau'r aelodau.

Her:

Yn sgil y lefel isel o adborth gan y gymuned, a'r niferoedd sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad o'u cymharu gyda'r hyn sydd yn digwydd mewn ymgynghoriadau ar brosiectau tebyg eraill, a fydd angen cynnal ymgynghoriad pellach?

Yn yr adolygiad o'r ardal dalgylch, roedd y rhan fwyaf o bobl yn bositif ond nid oeddynt wedi mynegi eu barn, ac felly, roedd y sawl a oedd yn gwrthwynebu wedi dominyddu. Pan oeddwn

wedi gohirio'r ymarfer ac wedi ei gynnal eto yn y blynyddoedd diwethaf, un o'r darnau allweddol o adborth oedd bob pobl yn credu fod hyn yn mynd i ddigwydd 'ta beth, ac felly heb gymryd rhan. Mae rhai o'r dulliau sydd wedi ei hamlinellu wedi cyffroi pobl - roedd y ddadl ynghylch sefydlu darpariaeth a gynhelir/nas cynhelir wedi arwain at nifer o bobl yn lleisio barn amlwg. Mae'r niferoedd sydd wedi cynnig adborth felly yn weddol debyg. Mae'r digwyddiadau ymgynghori sydd wedi eu cynnal wedi rhoi sicrwydd i bobl. Ar hyn o bryd, nid ydym yn credu fod angen ymgynghoriad pellach o ran llywodraethiant, er y bydd yna gryn dipyn o ymgynghori ar sut y bydd yr ysgol yn edrych, yn gweithredu ayyb. Mae Tim Bird wedi ymuno gyda'r tîm o Ysgol Gyfun Trefynwy, lle'r oedd yn gyfrifol am ddarparu'r prosiect llwyddiannus a oedd gennym yno. Bydd yn medru cynnig profiad o'r cydweithredu a'r ymgysylltu a wnaed yno ac yn rhan o'r gwaith y byddwn yn ei wneud gydag ysgolion yn y dyfodol.

Os mai'r penderfyniad yw mynd am feithrinfa nas cynhelir ym Mlwyddyn 3, ni fydd unman gan y plant Dechrau Deg i fynd iddo. Oni fydd Blwyddyn 3 yn dod yn elitaidd ac ar gyfer y bobl sydd yn medru fforddio talu am yr addysg honno?

Mae yna gynllun i adleoli ychydig o'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg a'i chynnwys yn y lleoliad ysgol newydd, a fydd yn fuddiol, a chadw'r Ganolfan Acorn Centre ar safle Deri View ar gyfer y ddarpariaeth Dechrau'n Deg. Felly, rydym am ehangu a datblygu'r cyfle ar gyfer ymgysylltu rhieni, a chefnogi'r plant hynny hefyd. Rydym yn anelu i greu'r ymdeimlad hyn o ran canolfannau teulu a phlant; rydym yn gwybod pa mor bwysig yw 1000 diwrnod cyntaf plentyn a chyn bwysiced yw'r ffordd y maent yn symud i ddechrau bywyd ysgol.

A ydym yn medru ystyried teithio ar gyfer plant sydd yn dymuno parhau i astudio yn y Gymraeg ar ôl TGAU, os nad oes opsiwn iddynt wneud hyn o fewn Sir Fynwy?

Roeddem yn credu bod y ffrwd cyfrwng Cymraeg yn ddatblygiad positif gan y byddai'n rhoi datrysiad o fewn y sir ar gyfer medru cynnig addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl ysgol gynradd, ond wedi trafodaethau gyda chydweithwyr yn y fforwm, maent wedi bod yn eglur ynglŷn â'r ffaith y byddai hyn yn effeithio ar brofiad y plant yma. Mae'r trafodaethau sydd i'w cynnal gyda chydweithwyr ym Mlaenau Gwent, Merthyr a de Powys yn meddu ar y potensial i greu cyfle hyfyr yn y dyfodol. Os yw Ysgol Y Fenni yn symud i fod yn ysgol dwy ffrwd cyn hir, bydd Ysgol Y Ffin yn dod yn ysgol un ffrwd - yn ehangu i 210 -, a gobeithio y bydd capasiti ychwanegol yn cael ei gyflwyno yng Ngogledd Ddwyrain y sir. Ond ni fydd y niferoedd hynny hyd yn oed yn cynnig digon o niferoedd i ni fedru cael ein darpariaeth uwchradd ein hunain yn Sir Fynwy. Felly, bydd rhaid cydweithio ag eraill am gyfnod er mwyn symud ymlaen, ond bydd rhaid i ni fod yn ymwybodol o'r pwynt am gludo disgyblion.

A yw'n beth da i symud i gael un corff llywodraethu ar gyfer tair elfen o addysg?

Mae'n bosib dweud yr un peth am gorff llywodraethu ar gyfer ysgol uwchradd fawr iawn. Wrth i ni fynd drwy'r broses o ddwyn y corff llywodraethu at ei gilydd, byddwn yn edrych yn ofalus iawn ar y sgiliau a'r profiadau sydd angen arnom er mwyn sicrhau bod yr ysgol newydd - os byddwn yn mynd i'r cyfeiriad hwn - yn llwyddiannus. Ar draws y sir, mae ein llywodraethwyr yn manteisio ar gyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol a gynigir drwy'r GCA ac maent yn gwneud gwaith da iawn fel eiriolwyr ar ran y disgyblion yn eu hysgolion.

Mae yna fanteision o gael darpariaeth meithrinfa breifat, a hynny o ran y gofal cofleidiol, ond mae yna risgiau hefyd. Mae'r risgiau yn cynnwys fod hwn yn fusnes sydd yn gorfod gwneud arian; mae darparwyr meithrinfeydd wedi dweud ei fod yn amhosib dibynnu ar yr arian sydd yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn unig ar gyfer llefydd yn y feithrinfa - dyna pam fod y

rhan fwyaf o ddarpariaeth breifat yn gofyn am daliadau ychwanegol. Mae hyn yn medru bod yn hynod anodd ar gyfer teuluoedd ar incwm isel - weithiau, mae'n golygu nad ydynt yn manteisio ar y llefydd sydd ar gael neu'n dewis cymryd llai o oriau na'r hyn y maent yn gymwys ar ei gyfer. Felly, mae yna bryderon sylweddol ynglŷn â sut y bydd hyn yn digwydd. Pa fesurau sydd yn cael eu rhoi yn eu lle er mwyn atal hyn rhag digwydd? Mae busnesau preifat yn medru methu - pa fesurau sydd yn cael eu rhoi yn eu lle er mwyn sicrhau bod y feithrinfa yn parhau ar y safle? Sut y byddwn yn sicrhau bod darparwr meithrinfa yn sicr o ddod i'r safle, a hynny o feddwl am y drafferth o sicrhau darpariaeth debyg mewn ysgol yn ne'r sir?

Yn y broses o fynd i'r afael gyda hyn, mae'r defnydd o'r gair 'preifat' yn anffodus, gan ein bod yn eglur mai lleoliad nas cynhelir yw hwn ac mae nifer o fodolau gwahanol ar gael. Yn Y Fenni, mae sawl meithrinfa yn cael eu rheoli gan bwyllgorau a modelau llywodraethiant na sydd yn cael eu gyrru gan elw. Mae modd cynnal lleoliad nas cynhelir mewn nifer o ffyrdd. Mae pob plentyn yn gymwys ar gyfer 10 awr o addysg feithrin bob wythnos ac sydd am ddim, ac wedi hyn, mae yna lwfans gofal plant 30 awr ar gael, sydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Felly, rydym yn teimlo fod yna gyfleoedd ychwanegol, a chyllid ychwanegol i ni fanteisio arno, er mwyn cefnogi oriau ychwanegol, a chyrraedd sefyllfa lle y mae plentyn yn medru derbyn 30 awr o ofal yn y lleoliad hwnnw. Rydym yn ceisio dod o hyd i'r cydbwysedd rhwng caniatáu pobl i gael mynediad at addysg feithrin ond hefyd yn caniatáu pobl i fynd yn ôl i'r gwaith os ydynt yn dymuno gwneud hynny er enghraifft. Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi ei bod am weld hyn yn digwydd. Mae darpariaeth addysg feithrin yn Sir Fynwy yn economi gymysg mewn gwirionedd, gyda mwy o leoliadau nas cynhelir na'r rhai a gynhelir, er bod y niferoedd sydd yn mynychu yn weddol debyg. Mae yna fanteision eraill, fel medru cynnig 48 wythnos drwy gydol y flwyddyn a'r cynnig o 30 awr o ofal plant, a hynny o'u cymharu â lleoliad a gynhelir sydd ond yn cynnig darpariaeth yn ystod term ysgol. Felly, tra bod yna bryderon dealladwy am hygyrchedd, mae yna fanteision yn perthyn i'r cynnig hwn hefyd.

A fydd yna CAA cynradd ac uwchradd? A yw'n gydnabyddiaeth fod anghenion ADY yn cynyddu ar draws y sir? Os caiff CAA ei sefydlu, a fydd hyn yn effeithio ar Gil-y-coed neu'r sir gyfan o ran lleihau'r capasiti mewn llefydd eraill?

Rydym yn sylwi ar dwf yn y nifer o blant sydd angen cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ar draws y sir. Un o'r meysydd mwyaf o ran galw yw plant sydd ag anghenion niwroddatblygol, gyda 36% o'r rhai hynny yn meddu ar ddatganiad. Rydym am ddarparu darpariaeth arbenigol ar gyfer y plant hynny. Mae'r ddarpariaeth gyfredol yn Nghil-y-coed, Trefynwy, Deri View, ayyb. oll yn darparu ar gyfer ystod o anghenion gwahanol ond wedi i ni weld y dystiolaeth a'r gwaith sydd angen ei wneud ar gyfer hyn yn y dyfodol, roedd yn amlwg fod angen i ni ffocysu'n benodol ar anghenion niwroddatblygol cymhleth. Os ydym yn dilyn yr hyn sydd yn rhan o'r broses ymgynghori, bydd un CAA gan mai un ysgol fydd yno. Mae ysgol pob oed yn fodel sydd yn aml i'w weld mewn darpariaethau arbenigol annibynnol. O ran y broses ddylunio, byddwn yn gweithio gydag arweinwyr y lleoliadau presennol er mwyn deall yr hyn sydd yn gweithio orau.

Nid oedd y ddogfen ymgynghori wedi sôn am fanteision ac anfanteision darpariaeth a gynhelir a darpariaeth nas cynhelir? O ran y 60 lle sydd wedi ei grybwyll, rydym yn tybio y bydd 30 yn y bore a 30 yn y prynhawn, ac felly, ni fydd cyfle i elwa ar y 30 awr o ofal plant am ddim y maent yn gymwys i'w dderbyn? A yw hyn wedi cael ei ystyried yn ddigonol?

Roedd y mater yma wedi ei drafod yn helaeth mewn cyfarfodydd. Roedd yna lefelau gwahanol o bryder. Roedd yna bryder amlwg a fyddai yna ddarparwr preifat ar gael tra bod yna ail bryder ynglŷn â natur a 'rheolaeth' y lleoliad a'r ddarpariaeth ac ymdeimlad y byddai plant yn elwa'n fwy pe baent o dan 'rheolaeth' yr ysgol rhwng bod yn 3 mlwydd oed a gweddill eu hamser yn yr ysgol. Ond mae yna esiamplau o leoliadau nas cynhelir ar safleoedd ysgol sydd yn gweithio'n dda iawn, gyda lefel dda o integreiddio. Roedd y trydydd pryder yn ymwneud gyda hygrededd a rhoi cyfleoedd cyfartal. Mae'n ysgogiad da ynglŷn ag ystyried sut y dylem ymgysylltu yn y dyfodol. Yn y papur Cabinet, rydym yn ymwybodol o'r ymhelaethu ar y farn sydd wedi ei mynegi ac ystyried manteision ac anfanteision y darpariaethau a gynhelir/nas cynhelir. Rydym am ystyried yr hyn yr ydym yn medru ei wneud, a hynny o fewn ffiniau'r cod wrth i ni symud ymlaen.

Rwyf yn bryderus iawn ynglŷn â chael meithrinfa nas cynhelir ar y safle. Mae 47% o blant Deri View yn cael Prydau Ysgol am Ddim ac mae hyn yn cynyddu - y ganran uchaf yn Sir Fynwy. Mae 40 o lefydd ADY wedi eu hariannu ac 20 heb eu hariannu, ac felly mae 25% yn y grŵp hwnnw. Mae 13% yn siarad Saesneg fel ail iaith. Felly, mae sefyllfa benodol iawn gennym. Mae darparydd preifat yn golygu diffyg rheolaeth gan nad yw o dan reolaeth y Pennaeth, yr uwch dîm rheoli neu'r llywodraethwyr. I gael sefyllfa lle y mae angen pontio o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3 nas cynhelir ac yna nol i'r Dderbynfa, wel mae hyn yn ymddangos yn afresymegol. Ni fydd y rhieni yn medru fforddio'r gofal. Mae'r posibilrwydd ein bod yn colli'r holl waith caled sydd wedi ei wneud gan yr ysgol er mwyn sicrhau bod y plant yma yn derbyn y gofal gorau a'r profiad pontio gorau - mae hyn yn echrydus. Nid oes unrhyw sôn am y rhieni yn Deri View sydd wedi, gyda chefnogaeth cynghorwyr y dref, cyflwyno deiseb yn gofyn am barhau gyda'r ddarpariaeth a gynhelir.

O ran y ddeiseb a gyflwynwyd yn y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor llawn, efallai mai'r hyn y dylid gofyn yw a fyddai rhywun yn dymuno derbyn 6 awr o ofal plant am ddim y diwrnod, gan gynnwys addysg feithrin, mewn lleoliad a reoleiddir a'i arolygu gan Estyn, gyda staff wedi eu cymhwysu mewn datblygiad plant ac yn datblygu ac yn darparu'r cwricwlwm i Gymru, o'i gymharu gyda'r 2.5 awr y maent yn derbyn ar hyn o bryd. Beth yw'r ateb o bosib? Rydym yn gwybod bod Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld mwy o hyblygrwydd o ran ein darpariaeth feithrin. Mae'n amlwg fod yna farn wahanol ynglŷn â hyn a rhaid i ni dreulio amser nawr yn ystyried y manteision sydd ar y ddwy ochr. Gobeithio y bydd pwyntiau a nodwyd yn rhoi'r hyder i aelodau mewn lleoliadau nas cynhelir. Rhaid i ni fod yn ofalus pan yn trafod y mater nad yw 50% o'r rhieni yn y sir yn cael yr argraff anghywir am y cwricwlwm, gofal, arolygon ayyb.

Mae disgyblion a staff Brenin Harri'r VIII yn haeddu safle gwell na'r hyn sydd ganddynt. Mae Ysgol Gymraeg Y Fenni o dan ei sang: mae angen adeilad newydd bob blwyddyn er mwyn delio gyda'r disgyblion newydd sydd yn golygu bod yr ardal chwarae yn mynd yn llai ac yn llai. Yr amserlen a roddwyd y bore yma yw 3 mlynedd. A oes modd ymdrin â'r sefyllfa yn Ysgol Gymraeg Y Fenni fel bod modd i ni symud ymlaen ynghynt gyda'r datblygiad?

Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau yn Ysgol Y Fenni. Mae 252 o ddisgyblion yno ar hyn o bryd a'r capasiti nawr yw 317, ac eithrio'r ddarpariaeth o ran y feithrinfa. Ac felly, mae yna le ar gyfer mwy o ddisgyblion. Rydym yn falch o weld twf addysg Gymraeg yng ngogledd y sir. Nid ydym yn credu fod yna unrhyw ffordd i gyflymu'r broses - y prif nod yw gweithio yn unol ag amserlenni'r prosiect. Mae'r amserlen ar gyfer y gwaith adeiladu yn heriol yn ogystal â sicrhau bod yr ysgolion yn symud draw yn y ffordd briodol.

Mae problemau capasiti gydag Ysgol Gymraeg Y Fenni tra bod Ysgol Gymraeg Y Ffin angen mwy o blant. A oes modd edrych ar ddau dalgylch gyda'i gilydd?

Mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud yn Ysgol Y Ffin. Mae ehangu i 210 yn mynd i roi'r cyfle i gynnis gofal cofleidiol, ac rydym am ei gweld yn llwyddo fel ysgol lawn. Os oes modd gwneud rhywbeth am y dalgylch, yna byddwn yn gwneud hynny. Rydym am ystyried gogledd ddwyrain y sir hefyd o ran darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ychwanegol, ac felly, bydd angen i ni ystyried y dalgylch ar gyfer pob un o'n hysgolion cyfrwng Cymraeg.

Crynodeb y Cadeirydd:

Ar y cyfan, mae'r pwyllgor o blaid y datblygiad. Mae adeilad Brenin Harri wedi bod mewn cyflwr truenus am gryn dipyn ac nid yw'n addas i'r diben. Mae'r ysgol yn ddarparwr sylweddol, yn gwasanaethu ardal fawr. Mae'n bwysig fod pobl sydd yn byw yn Sir Fynwy yn medru danfon eu plant drwy'r ysgolion sydd oll wedi eu lleoli yn y sir, os yn bosib. Mae yna bryderon am Deri View yn symud, ac rydym yn gwerthfawrogi hyn. Mae'n un o'r ardaloedd heriol yn y dref, ac yn yr awdurdod, o ran lefelau amddifadedd, darpariaeth prydau ysgol am ddim ayyb. Mae angen cryn dipyn o ofal felly wrth i ni drosglwyddo'r ysgol honno - mae symud yn medru bod yn drawmatig i blant a hyd yn oed i'r staff, ynghyd â rhieni.

Y prif beth i'w nodi yw'r gwrthwynebiad at ganolfan nas cynhelir ar gyfer plant ifanc sy'n 3 mlwydd oed, yn enwedig gan fod hon yn ardal o amddifadedd uchel – mae gofal plant mewn teuluoedd sydd ag adnoddau yn gostus ond yn fforddiadwy, ond mae hyn yn fwy o broblem ymhlith teuluoedd incwm isel. Ni fyddem yn argymhell ein bod yn mynd yn ôl i ymgynghori gan y bydd hyn yn oedi'r broses eto. Gan ein bod nawr yn symud at wneud penderfyniad, fel awdurdod, ac os oes modd ailystyried y ddarpariaeth addysg feithrin, yna nid oes gwrthwynebiad gan y pwyllgor hwn – mae'r adborth fel arall wedi bod yn positif.

4. Budget Monitoring

Roedd Tyrone Stokes a Nicola Wellington wedi cyflwyno'r adroddiad ac wedi ateb cwestiynau gan aelodau.

Her:

Nid oes digon o arian gan ddwy ysgol cyfrwng Cymraeg; a ydych yn medru ehangu ar hynny a sut ydym yn delio gyda hyn?

Gyda rhai ysgolion bach fel Ysgol Y Ffin, rydym wedi dysgu nad yw'r cyllid sydd yn cael ei bennu gan y fformiwla bob tro yn ddigon i dalu am gostau sefydlog yr ysgol. O dan y rheoliadau, rhaid i ni roi 70% yn seiliedig ar nifer y disgyblion, ac felly, os yw'r nifer yn llai, yna mae unrhyw arian dros ben yn medru cael ei wario yn erbyn costau'r safle a'r adnoddau, fel sydd yn digwydd mewn ysgolion mwy. Rydym yn gorfod delio gyda hyn bob blwyddyn ac rydym yn cynnis cymorth o dan y fath amgylchiadau.

Nid oes digon o arian gan Ysgol Y Fenni. Rydym yn gweithio yn agos iawn gyda'r ysgol, yn ystyried y strwythurau staffio yn benodol. Mae'n ysgol sydd yn tyfu, gyda mwy o ddisgyblion yn dod i mewn, ond rydym yn credu y bydd adolygiad o'r strwythur staffio yn helpu gyda hyn.

Diolch i'ch swyddogion am bob dim y maent yn ceisio gwneud er mwyn ceisio mantoli'r gyllideb. Mae'n anffodus bod Gwasanaethau Plant yn gorfod gorwario ei gyllideb bob tro.

Nid yw hwn yn fater sydd yn effeithio ar Sir Fynwy neu Gymru'n unig ond mae'n digwydd ar draws y DU. Mae yna gynghorau fel Wakefield na sydd yn medru cynnis darpariaeth ar gyfer lleoliadau cost-uchel. Unwaith y mae awdurdod lleol yn mynd i ddarparwyr cost-uchel, mae'r darparwyr hyn yn gwybod nad oes opsiwn arall ar ôl gan yr awdurdod lleol. Rydym yn ceisio

lleihau a negodi'r costau yma ond mae ein pŵer dipyn yn llai na'r darparwr. Rydym yn edrych ar ein Strategaeth Gwasanaeth Aml-Asiantaeth fel bod modd i ni gynnig mwy o gymorth drwy gyfrwng ein hadnoddau mewnol ond mesur dros dro yw hyn gan ein bod yn ceisio symud y plant yn ôl i'r sir ond mae hyn yn cael ei wneud nid yn unig ar sail cyllid – rhaid mai hyn yw'r peth cywir i'w wneud ar gyfer y plentyn Mae'r her gyfreithiol o ran gofalwyr dan berthynas wedi ein harwain i gysoni'r cyfraddau yr ydym yn talu iddynt fel eu bod yn cyfateb i'r hyn yr ydym yn talu gofalwyr maeth. Nid oedd modd rhagweld hyn ac roedd yn gyfrifol am chwarter o'r gorwariant.

Mae Ysgol Uwchradd Cas-gwent eto mewn diffyg ariannol ond nid ysgolion eraill. A ydych yn medru cynnig rhai sylwadau am hyn?

Mae Cas-gwent wedi wynebu sawl her sydd yn ymwneud gyda strwythur staffio y maent wedi ceisio ei weithredu Yn anffodus, oedwyd yr ailstrwythuro yn sgil y pandemig, ond mae wedi ei weithredu ers y mis hwn. Bydd yn cymryd amser cyn bod yr arbedion yn cael eu sicrhau ac roeddynt wedi wynebu blwyddyn o gostau uwch oherwydd dechreuodd y pandemig pan oeddynt am wneud y newid i'r strwythur staffio. Mae eu cynllun adferiad yn adlewyrchu'r oedi yma o ran yr amserlenni.

O ran y gyllideb ADY, pa incwm sydd yn cael ei dderbyn er mwyn mantoli'r gyllideb nawr nad yw Mounon House yn weithredol mwyach?

Ydy, mae Mounon House wedi derbyn incwm gan fyfyrwyr sydd wedi eu gosod yno gan awdurdodau eraill. Mae'r incwm yr ydym yn derbyn nawr ar gyfer disgyblion sydd yn cael eu gosod yno gan awdurdodau lleol yn ein hysgolion prif ffrwd.

Crynodeb y Cadeirydd:

O ran y ddarpariaeth ysgolion, nid ydym erioed wedi bod mewn sefyllfa mor positif: roedd llawer iawn mwy o ysgolion mewn diffyg ariannol ychydig yn ôl. Efallai mai'r unig beth positif sydd wedi dod o Covid yw'r help gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ysgolion fel eu bod mewn sefyllfa well. Mae bron yn amhosib rheoli cyllideb Gwasanaethau Plant ac mae'r pwyllgor am roi diolch i'r swyddogion am eu gwaith caled parhaus.

5. Blaenraglen Gwaith Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc

Yn Ionawr 2022, hoffai'r pwyllgor dderbyn diweddariad ar Ysgol Cas-gwent.

6. Blaenraglen y Cyngor a'r Cabinet

7. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 27 Mai 2021 a 26 Gorffennaf 2021.

Cadarnhawyd y cofnodion ac fe'u llofnodwyd fel cofnod cywrain, a chynigiwyd hyn gan y Cyngorydd Powell ac fe'i heiliwyd gan y Cyngorydd Brown. Roed y Cyngorydd Edwards am egluro nad oedd wedi mynychu'r cyfarfod blaenorol.

8. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf: 14eg Hydref 2021

The meeting ended at **11.57 am**